



Cyfarfod

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**11.15 y.b., DYDD GWENER, 9FED MAWRTH, 2018**

Lleoliad

**Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd.  
LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 01.03.18)

## AELODAETH

### Cyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr: Dylan Bullard, E. Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Angela Russell, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams ac Owain Williams.

### Cyngor Sir Ceredigion

Disgwyl Enwebiad

### Cyngor Sir Powys

Y Cyngorydd J M Williams

### AELODAU ERAILL:

Dafydd Elis-Thomas	Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd
Liz Saville Roberts	Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd
Dave Thomas	Llywodraeth Cymru
Claire Britton	Rheilffordd Ffestiniog
Cyng.Trevor Roberts	Pwyllgor Ymgynghorol Rheilffordd Amwythig/Aberyswyth
Tim Bell	Trenau Arriva Cymru
Ben Davies	Trenau Arriva Cymru
Claire Williams	Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian
David Crunkhorn	Trenau Arriva Cymru
Samuel Hadley	Network Rail
Carl Jones	Network Rail
Helen Lewis	Ysgol Uwchradd Tywyn
Tudur O Williams	Ysgol Arduwy
Pennaeth	Coleg Meirion-Dwyfor
Joyce Watson	AC Rhanbarthol dros Canolbarth a Gorllewin Cymru
Simon Thomas	AC Rhanbarthol dros Canolbarth a Gorllewin Cymru
Neil Hamilton	Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru
Stuart Williams	Rheilffordd Talyllyn
Roger Goodhew	Cymdeithas Teithwyr Amwythig-Aberystwyth
Sgt. Karl Anderson	Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Rob Newman	Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
	Heddlu Gogledd Cymru
Councillor Delwyn Evans	Grwp Mynediad Meirionnydd
Councillor Alun Wyn Evans	Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Gymru
Councillor Trefor Jones	Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru
Cyng. Freya Bentham	Parc Cenedlaethol Eryri
Chris Wilson	Cyngor Sir Ceredigion
Ann Elias	Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

I ystyried unrhyw fater sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION

4 - 11

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2017.

(Copi'n amgaaedig)

## 5. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL

I dderbyn adroddiad gan Mr Samuel Hadley, Network Rail.

## 6. ADRODDIAD GAN TRENAU ARRIVA CYMRU CYF.

I dderbyn adroddiad gan Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru.

## 7. ADRODDIAD SWYDDOG PARTNERIAETH RHEILFFORDD Y CAMBRIAN

I dderbyn adroddiad gan Swyddog Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian.

## 8. CWESTIYNAU FFURFIOL

12 - 13

I dderbyn ymateb l'r cwestiynau amgaaedig a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

# Eitem 4

## CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 10 Tachwedd 2017 o 11.00 a.m. tan 1.15 p.m.

### YN BRESENNOL

**Y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths - Cadeirydd**  
**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams - Is-gadeirydd**

#### **Yn cynrychioli:**

Y Cynghorwyr Dylan Bullard, Anne Lloyd Jones, Dewi Owen, Annwen Hughes, Angela Russell (Cyngor Gwynedd), Cyng. J. Michael Williams (Cyngor Sir Powys), Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd), Sioned Roberts (Rheolwr Swyddfa Dafydd Elis Thomas AC), Bedwyr Gwilym (cynrychiolydd ar ran Mrs Liz Saville Roberts AS), Cyng. Delwyn Evans (Grŵp Mynediad Meirionnydd), Cyng. Trefor Jones (Cynrychiolydd Dwyfor Unllais Cymru), Mr Alun Wyn Evans (Cynrychiolydd Meirionnydd Unllais Cymru), Ms Claire Britton (Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri), Mr R.M. Whitehouse (Rheilffordd Talyllyn), Mr Ben Davies (Trenau Arriva Cymru), Mr Lewis Brencher, (Trenau Arriva Cymru), Mr Sam Hadley (Network Rail), George Collinson (Network Rail), Mr Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth), Llinos Roberts (Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol), Mrs Mererid Watt (Cyfieithydd), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Arsylwi:** Cyng. Louise Hughes (Cynghorau Cymuned y Friog a Llwyngwril)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Gethin Williams, Owain Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng Trevor Roberts (Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth), Mr Tudur Williams (Pennaeth Ysgol Ardudwy), Yr Heddwes Rob Newman (Heddlu Trafnidiaeth Prydain), Mrs Liz Saville Roberts (AS Dwyfor/Meirionnydd), Cyng Freya Bentham (Parc Cenedlaethol Eryri), Mr Neil Hamilton (AC Canolbarth a Gorllewin Cymru), Mr Stuart Williams (Rheilffordd Talyllyn), Mr Aled Jones-Griffiths (Pennaeth Cynorthwyol Coleg Meirion-Dwyfor), Ms Claire Williams (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Ms. Ann Elias (GMW).

#### **1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd:** Ethol y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2017-18.

**Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i:**

- (a) Ddiolch i'r aelodau am ei ethol y Gadeirydd.
- (b) Llongyfarchodd yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas ar ei benodiad diweddar yn Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru.
- (c) Croesawodd Bedwyr Gwilym i'w gyfarfod cyntaf ar ran Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd.

## **2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd:** Ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2017-18.

## **3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## **4. MATERION BRYD**

Nid oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw faterion brys.

## **5. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod y gynhadledd a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2017.

**Penderfynwyd:** Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.

## **6. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL**

Croesawyd Mr Sam Hadley, Rheolwr Materion Cyhoeddus Llwybrau Cymru a Mr George Collins i'r cyfarfod.

Adroddodd Mr Hadley fel a ganlyn:

### **(a) Dathliadau Pen-blwydd 150 Traphont Abermaw**

Bu'r dathliad uchod yn Abermaw yn llwyddiant mawr. Roedd Mr Andy Thomas, Rheolwr Llwybrau Cymru, wedi cyfarfod gyda'r Aelod Seneddol, Aelod Cynulliad a'r aelodau sir a lleol yn ystod penwythnos y dathliadau.

Nodwyd bod ymrwymiad i fuddsoddi yn y bont uchod, i'w gwneud yn hyfyw am y 150 mlynedd nesaf.

### **(b) Blocâd afon Artro**

- Datblygwyd dull arloesol ar y cyd rhwng y dylunwyr, contractwyr a pheirianwyr Network Rail i uchafu'r allbwn yn ystod y blocâd 10 diwrnod, gyda gwaith dros dro yn codi'r system a ddefnyddir ar bont afon Artro. Roedd y system yma'n golygu nad oedd angen tynnu'r trac i gyd.
- Afon Wen - ymgwymerwyd â gwaith brys yma pan agorodd llyncdwill ar ôl stormydd diweddar a defnyddiwyd 66 metr ciwbig o goncrid wedi'i atgyfnerthu i gyflymu'r broses ac felly nid oedd angen gosod 'mesh'. Gwelwyd fod rhagor o niwed gerllaw gan storm a bydd Network Rail yn delio â hyn cyn gynted â phosib.
- Traphont Abermaw - newidwyd y preniau hydredol ar y draphont and roedd yn braf gweld unedau cyflenwi eraill yn defnyddio Blocâd Artro i gynnal y rhwydwaith.
- Gwnaed gwaith i rwydo cerrig hefyd yn ardal Aberdyfi, ac mae hyn yn mynd rhagddo a'r bwriad yw atal cau y lein yn ddi-rybudd yn y dyfodol gan fod cerrig wedi syrthio.

### **(c) Penhelig**

Bydd Gorsaf Penhelig ynghau am dri mis o'r 3 Ionawr i ganiatau ymgymryd â gwaith sylweddol i adnewyddu'r platfform. Roedd llythyrau wedi eu hanfon i drigolion lleol a chynhelir sesiwn galw heibio ym mis Rhagfyr.

Adroddwyd ymhellach y byddai gwaith rhwydo cerrig yn digwydd yn yr ardal leol.

Gwnaeth yr aelodau y sylwadau a ganlyn:

- (i) I ateb cwestiwn gan aelod lleol Aberdyfi am fynd ag offer i ymgymryd â'r gwaith ym Mhenhelig, addawodd Mr Hadley y byddai yn holi am y manylion ac yn cysylltu gyda'r aelod efo'r wybodaeth.
- (ii) Diolchwyd i beirianwyr/contractwyr Network Rail am y gwaith wnaed ar flocâd afon Artro, a nodwyd nad oeddent was amharu ar y trigolion cyfagos.
- (iii) O ran y sefyllfa y ddiweddaraf am osod rhwystrau yng nghroesfan Talwrn Bach, Llanbedr, dywedodd Mr Hadley bod y gwaith yma wedi ei drefnu ar gyfer 2018.
- (iv) Ni roddwyd unrhyw ddiweddariad am Faes Parcio Gorsaf Dyffryn Arduw ond addawodd Mr Hadley i gysylltu â'r aelod lleol pan roedd gwybodaeth wedi dod i law.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad a diolch i Mr Sam Hadley am ei adroddiad.**

## **7. ADRODDIAD GAN DRENAU ARRIVA CYMRU**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Ben Davies a Mr Lewis Bencher i'r cyfarfod.

Roedd Ms Claire Williams, Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian oedd newydd ei phenodi, wedi ymddiheuro am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond roedd wedi anfon adroddiad at Mr Davies ac fe wnaeth yntau ei gyflwyno fel a ganlyn:

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at weithgareddau cyn ac ar ôl penodiad Claire. Cyn ymuno â byd Rheilffyrdd Cymunedol, gweithiodd am bum mlynedd fel Swyddog Partneriaeth Cymunedol gyda Chyngor Caerdydd ac roedd ei gwaith yn cynnwys holl agweddau Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Llesiant, Materion Amgylcheddol ac Addysg a Chyflogaeth ac felly gyda chefnidir mewn ymgysylltu cymunedol fe ddaw â chyfoeth o brofiad gyda hi.

Yn ystod y cyfnod byr yma roedd Claire wedi cyfarfod gyda nifer o bartneriaid ariannu a strategol i gyflwyno ei hun ac i drafod sut y gellid barhau i weithio ar y cyd i sicrhau nad yw'r gwaith yn cael ei ddyblygu a chael y gwerth gorau i arian cyhoeddus.

### **Masnachfaint Rheilffyrdd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru**

Yn ddiweddar, roedd Ms Claire Williams wedi mynychu cyfarfod gyda Threnau Arriva Cymru ble trafodwyd dyfodol Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol a sut y byddant yn ffitio i mewn gyda'r fasnachfaint nesaf a bydd yn cyfarfod KeolisAmey a MTR Corporation (Cymru) Ltd yn yr wythnosau nesaf.

## **Arolygon**

Mae Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn falch o gael gweithio gyda Phwyllgor Cyswllt Rheilffordd Amwythig i Aberystwyth gan gomisiynu arolwg a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2017 fel rhan o grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arolygon yn dilyn llwyddiant arolygon 2013 a 2015 a olygodd well gwasanaethau ar Leiniau'r Cambrian. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg i Gareth Evans, Economegydd Rheilffyrdd Llywodraeth Cymru gan y Pwyllgor ar Dachwedd 17eg 2017 mewn cyfarfod ym Mharc Cathays.

## **Ymgyrch Hyrwyddo 201/2018**

Derbyniodd y bartneriaeth arian ychwanegol oedd yn caniatu iddynt baratoi gwefan newydd sbon yn canolbwyntio ar ymwelwyr ac mae'r wefan bellach yn fyw, y cyfeiriad yw [www.walesonrails.com](http://www.walesonrails.com) gan gynhyrchu mwy o ffilmiau byr fydd yn cael eu rhyddhau yn Chwefror/Mawrth tan ddechrau'r haf eleni. Bydd yr ymgyrch wedi ei seilio yn uniongyrchol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar 'Flwyddyn y Môr 2018'.

2018 yw Blwyddyn y Môr ac ar y cyd gyda Croeso Cymru, TAC ac amryfal bartneriaid allweddol eraill cynhelir nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol yn ystod y flwyddyn ar sail amrywiaeth o themâu i bob tymor gyda'r holl ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn ardal Arfordir y Cambrian a rhai yn digwydd ar y trê. Bydd mwy o fanylion ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Ychwanegodd Mr Ben Davies y bydd Trenau Arriva Cymru yn gweithio'n agos mewn partneriaeth gyda Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian ac roeddent yn awyddus i gysylltu cymunedau gyda'i gilydd gan hyrwyddo teithio ar y trê. Un digwyddiad a awgrymwyd oedd troi trê yn garnifal yn ystod misoedd yr haf, cynnal cystadleuaeth adeiladu castell tywod yng Nghricieth i ddenu mwy o bobl, gweithio mewn partneriaeth gyda Hafan y Môr Pwllheli, Croeso Cymru, Rheilffordd Ffestiniog ac ati.

## **Ail-agor Gorsaf Rhyd y Pennau**

Yn ddiweddar roedd Ms Claire Williams wedi mynychu cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a nifer o bartneriaid strategol eraill ynglŷn ag ail-agor Gorsaf Rhyd y pennau. Roedd Adran Drafnidiaeth y DU wedi cyhoeddi canlyniad ceisiadau llwyddiannus a wnaed i'r Gronfa Gorsafoedd newydd, oedd ar gael tuag at gost arian cyfalaf cynlluniau i agor gorsafoedd o'r newydd neu ail-agor gorsafoedd oedd wedi cau, wedi ei hyrwyddo gan drydydd partion yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y cynllun arfaethedig yn flaenoriaeth trafndiaeth leol a rhanbarthol yng Nghynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015-2020 a bydd yn darparu cyfnewidfa cludiant cyhoeddus gyda gorsaf newydd, cyfleusterau parcio i geir a beiciau i alluogi teithwyr i gael mynediad i wasanaethau bws a rheilffordd ac i rannu ceir o'r lleoliad yma. Roedd y cynllun hefyd yn ceisio mynd i'r afael gyda phryderon diogelwch ffordd lleol drwy darparu gwelliant i gyffordd A487 / A4159 gyda chyfleusterau teithio llesol. Bydd y cynllun yn cefnogi ac yn darparu cyfleoedd twf economaidd posib a gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau a leolir yn Aberystwyth a'r cyffiniau ac yng ngogledd Ceredigion.

Er bod y prosiect ar hyn o bryd yn y cam dylunio, roedd ar y ffordd i'w gwblhau yn ystod haf 2020.

## **Cynllun Busnes 2017-2018**

Cyflwynwyd cynllun busnes y flwyddyn ariannol gyfredol yng nghyfarfod Mawrth o Bartneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian i'w gymeradwyo gan y rhan-ddeiliaid ariannu. Cymeradwywyd y cynllun busnes gan y Bartneriaeth ac mae gwaith yn cael ei wneud arno ar hyn o bryd.

## **Cymunedau a Gorsafoedd Dementia Gyfeillgar**

Fel Swyddog Datblygu newydd i Bartneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian, un o'r amcanion allweddol yw ymgysylltu â'r gymuned, datblygu cynlluniau i ehangu cyrhaeddiad PRhC i ystod ehangach o grwpiau yn cynnwys y rhai sydd dan anfantais gymdeithasol.

Yn unol â'r cylch gwaith yma mae Claire ar hyn o bryd yn gweithio gyda phartneriaid ariannu a strategol i wneud Lein Rheilffordd y Cambrian yn Gymuned Dementia Gyfeillgar ei hun. Mae hon yn dasg enfawr a bydd yn cymryd tua tair blynedd i'w chyflawni. Er hynny, mae am ymgymryd â hyn fesul cam o orsaf i orsaf, gan ddechrau yn y gorsafoedd ble mae swyddogion sef Machynlleth, Abermaw, Pwllheli ac Amwythig. Gallai hyn wneud Lein Rheilffordd y Cambrian y Lein Reilffordd Dementia Gyfeillgar gyntaf yn y DU. Ar hyn o bryd mae nifer fechan iawn o orsafoedd DG yng Ngymru ond mae'n credu yn gryf y gellir cyrraedd y nod yma.

Oherwydd bod gorsaf Rhyd y pennau yn y cam dylunio, pan gynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb i ail-agor yr orsaf gofynnwyd i gydweithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer's i'w gwneud yn Orsaf Dementia Gyfeillgar.

I gloi, dywedodd Mr Ben Davies fod Trenau Arriva Cymru wedi tynnu yn ôl o'r broses i wneud cais i redeg gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru o 2018. Er hynny, bydd y 2000+ o staff yn trosglwyddo dan delerau ac amodau TUPE i gwmni newydd y fasnachfrait. Bydd Trenau Arriva Cymru yn parhau i wella'r gwasanaeth i bobl Cymru am yr un mis ar ddeg nesaf.

Nid oedd y tywydd wedi bod yn ffafriol yn ystod yr haf ac mewn partneriaeth gyda Network Rail roedd y perfformiad wedi dechrau cynyddu a gall barhau i wneud hynny.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol gwnaeth yr aelodau'r sylwadau a ganlyn:

1. Diolchwyd i Mr Ben Davies am y diweddariad ynglŷn â'r fasnachfrait newydd, roedd yn ddealladwy fod gweithwyr Trenau Arriva Cymru yn poeni am eu dyfodol a dyfodol eu teuluoedd. Roedd swyddi cludiant cyhoeddus ym Machynlleth yn cael eu gwerthfawrogi ac roedd canran enfawr o boblogaeth y dref a'r ardal yn dibynnu ar y swyddi hyn am eu bywoliaeth. Roedd y berthynas waith rhwng Trenau Arriva Cymru a Network Rail yn cael ei gwerthfawrogi a hefyd y gefnogaeth i'r ardal gan Lywodraeth Cymru.
2. Roedd Trenau Arriva Cymru wedi gwella dros y blynyddoedd a'r gobaith oedd y byddai'r cwmni fyddai'n llwyddo i ennill y fasnachfrait yn parhau gyda'r gwaith da a wnaed.
3. Pwysleiswyd pwysigrwydd casglwyr tocynnau / giard ar y trenau.



4. Nodwyd hefyd y pwysigwydd o edrych ar ôl pobl anabl oedd yn defnyddio'r gwasanaethau.
5. Roedd angen adeiladu lloches yng Nghyffordd Dyfi. Wrth ateb, cytunodd Mr Ben Davies i holi ymhellach am y mater yma.
6. O ran cyflwyno tocynnau trên i grŵp o bobl, dywedodd Mr Lewis Brencher fod Trenau Arriva Cymru wedi buddsoddi mewn cynllun newydd ac yn gweithio i ostwng maint y tocynnau. Yn y dyfodol, bydd teithwyr yn gallu prynu tocynnau misol yn ogystal â thocynnau grŵp a hefyd gellid lawr lwytho tocynnau i ffonau symudol.
7. Wrth ateb cwestiwn a fyddai mwy o gerbydau ar Wyliau Banc o safbwynt agwedd iechyd a diogelwch, dywedodd Mr Davies nad oedd gan Trenau Arriva Cymru ddigon o drenau - 24 yn rhedeg o Fachnylleth. Y flwyddyn nesaf bydd Trenau Arriva yn buddsoddi a'r gobaith oedd y byddai mwy o drenau ar gael ar gyfer haf 2018.
8. Roedd yn braf nodi'r amcan i wneud Lein Rheilffordd y Cambrian yn Gymuned Dementia Gyfeillgar ei hun. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ac fe awgrymwyd fod Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn cysylltu ag Emma Quaeck yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog, os yw angen rhagor o wybodaeth gan fod Emma wedi bod yn cynnal digwyddiadau arbenigol i gleifion dementia.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad a diolch i'r swyddogion am yr adroddiad uchod a'r sylwadau.**

## **9. CWESTIYNAU FFURFIOL**

Roedd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol wedi eu cyflwyno gan Aelodau'r Pwyllgor / Cynghorau Cymuned / ac unigolion ac atebwyd fel a ganlyn:

- (i) **Fel noddwyr signalu ERTMS a ddefnyddir ar y Cambrian, mae'n ofynnol fod Network Rail yn pwysu ar i bob cerbyd teithwyr sydd wedi eu trawsnewid i gael eu defnyddio ar y rheilffordd. Mae hyn yn golygu bod Network Rail yn cymryd cyfrifoldeb nad oes cerbydau Dosbarth 158 ar y Cambrian. Dylid un ai defnyddio'r cyfan o'r 24 uned Dosbarth 158 a'u dyrannu'n briodol neu fod Network Rail yn ariannu trawsnewid cerbydau eraill i gwrdd â'r galw.**

Wrth ateb, dywedodd Mr Sam Hadley ei fod wedi trafod hyn gyda'r Cynghorydd Trevor Roberts pan gyfarfu ag ef yn Abermaw, mewn perthynas â'r trên stêm. O safbwynt y mater ehangach, nid oedd yn sicr pwy oedd yn gyfrifol am hyn. Roedd Llywodraeth y DU yn edrych i ehangu gwella digidol. Aeth Mr Lewis Bencher yn ei flaen i ddweud y lleiaf o ddefnydd oedd o'r 158 y tu allan i Lein y Cambrian, roedd mwy o bosibilrwydd o'u defnyddio ar leiniau eraill. Roedd 24 (158 uned) allan o Fachnylleth yn rif delfrydol ac yn fflyd eithaf sylweddol.

Roedd trafodaethau yn parhau gyda Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd a dywedodd Mr Hadley y byddai'n diweddarau'r Pwyllgor hwn pan fyddai rhagor o wybodaeth wedi dod i law.

- (ii) **Rhwystrau diogelwch/wal derfyn - Prif ffordd (A493) - rhwng Llwyngwriil a'r Friog**

Dyweddodd Mr Hadley yn dilyn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn roedd y mater yma wedi ei godi gyda'r Rheolwr Asedau Llwybrau. Cynhaliwyd cyfarfod safle rhwng swyddogion o Network Rail ac Ymgynghoriaeth Gwynedd ble cytunwyd y byddai Network Rail yn anfon cylch gwaith i Dylan Davies, Uwch Beiriannydd gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd i ymgymryd â'r gwaith. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw ddyddiad dechrau i'r gwaith, ond addawodd Mr Hadley i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau.

**(iii) Diffyg goleuadau ym maes parcio Gorsaf Llwyngwrl**

Dyweddodd Mr Hadley nad oedd Network Rail yn derbyn arian i wneud gwelliannau ond roedd yn falch o gael adrodd eu bod yn edrych ar gynllun goleuo yn y maes parcio gan fod cyfle wedi codi i wneud y gwaith yma. Nid oedd dyddiad hysbys i'r gwaith ond bydd Mr Hadley yn i roi gwybod am unrhyw ddatblygiadau i aelodau'r Pwyllgor.

**(iv) A yw Trenau Arriva Cymru yn medru sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog?**

Dyweddodd Mr Ben Davies fod Trenau Arriva Cymru yn ateb gohebiaeth yn ddwyieithog ond roeddent yn cael trafferth gyda gwasanaeth dwyieithog ar y trenau oherwydd diffyg ariannu. Hyderir y bydd cwmni llwyddiannus y fasnachfaint newydd yn gallu cynnig gwasanaeth cyhoeddi dwyieithog yn y gorsafoedd ac ar y trenau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Porthmadog am ddiffyg defnydd a blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dywedodd hefyd fod y mater uchod wedi ei drafod yn y Pwyllgor hwn am nifer o flynyddoedd heb unrhyw lwyddiant ac roedd yn flaenoriaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio a bod enwau Cymraeg yn cael eu hynganu yn gywir mewn cyhoeddiadau ar drenau ac ar hysbysiadau mewn gorsafoedd.

Wrth ymateb, dywedodd Mr Davies fod y cyhoeddiadau yn cael eu gwneud drwy system tecst i siarad ac nid oedd bob amser yn cael ei ddweud gan berson. Er hynny, dywedwyd ymhellach fod staff oedd ddim yn siarad Cymraeg yn cael cyfle i ddysgu'r iaith ac yn cael eu hannog i siarad Cymraeg. Roedd Cwmni oedd yn gallu darparu'r gwasanaeth yn y Gymraeg ond dywedodd Mr Davies eto y byddai'n ddrud iawn ac nad oedd gan Trenau Arriva Cymru unrhyw arian.

**(v) A yw Arriva am ystyried cael un trê'n cyflym y dydd nôl ac ymlaen o'r Gogledd i'r De?**

Nododd Mr Davies nad oedd hyn am ddigwydd ac ychwanegwyd y byddai'n fater i'r masnachfaint newydd i'w ystyried.

**(vi) A yw Arriva am ystyried cynnig gwasanaeth arlwyo ar y trê'n rhwng Pwllheli a Machynlleth?**

Addawodd Mr Davies y byddir yn edrych i fewn i'r uchod ac y byddai'n fwy na bodlon trafod ymhellach hefo unrhyw un a fyddai'n barod i gynnig y gwasanaeth.

**(vii) Nid oes gan y stesions trê'n rhwng Pwllheli a Machynlleth beiriannau tocynnau – ac mai'n anghyfleus nad oes modd printio tocynnau wedi eu prynu o'r We neu medru eu lawriwytho ar app. A oes modd datrys hyn?**

Mewn ymateb nododd Mr Davies nad oedd bwriad i osod peiriannau oherwydd diffyg lle yn y gorsafoedd. Fodd bynnag, fe fyddir yn cyflwyno technoleg newydd a fyddai ar gael i bawb a bod yn rhaid ystyried pob ffurf i werthu tocynnau gan ystyried hefyd cynnal a chadw a dibynadwyedd.

(viii) **A oes modd cael arwyddion i'r stesion drên yng Nghricieth?**

Addawodd Mr Davies i ystyried yr uchod ymhellach a nododd Mr Sam Hadley y byddai Network Rail yn cefnogi os y gallent.

Os yw'r cwestiwn yn cyfeirio at arwyddion lliw brown, byddai'n rhaid cyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi'r adroddiad gan ddiolch i'r swyddogion am eu hatebion i'r cwestiynau uchod a'u bod yn cymryd camau gweithredu priodol lle bo angen.**

10. **DYDDIAD I'R DYDDIADUR**

**Atgoffwyd yr aelodau y cynhelir cyfarfod nesaf y Cydgyfarfod gyda Phwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth am 11.15 a.m. ar ddydd Gwener, 24 Tachwedd 2017 yn y Plas, Machynlleth.**

**CADEIRYDD**

# Eitem 8

## **CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN** **CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

### **Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

A oes diweddariad ar gael arwyddion i'r stesion drên yng Nghriccieth?

Is there an up-date regarding signs for the train station in Criccieth?

### **Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

A oes diweddariad ar gael arwyddion i'r stesion drên yng Nghriccieth?

Is there an up-date regarding signs for the train station in Criccieth?

### **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Cyngor Tref Criccieth .....

.....  
I'w dychwelyd i / To be returned to: **Glynda O'Brien**  
**Swyddog Cefnogi Aelodau / Members Support**  
**Officer**  
**Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**  
**Cae Penarlag**  
**DOLGELLAU**  
**Gwynedd. LL40 2YB**

Erbyn / By: **19.02.18**

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**  
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

Dim ond holi pryd bydd y gwaith o osod barrier ar draws y ffordd Crossing Talwrn Bach yn cael ei wneud. Deallwn oddi wrth y Cynghorydd Annwen Hughes bod gwaith I fod I'w wneud eleni yn 2018.

Llawer o ddiolch

Enquiring as to the exact date of the installation of the barrier at Talwrn Bach Crossing. It is understood from Councillor Annwen Hughes that the work will be undertaken this year in 2018.

Many thanks

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: ...Clerc Cyngor Cymuned

Llanbedr.....

Morfudd Wyn Lloyd

I'w dychwelyd i / To be returned to:

**Glynda O'Brien**  
**Swyddog Cefnogi Aelodau / Members Support**  
**Officer**  
**Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**  
**Cae Penarlag**  
**DOLGELLAU**  
**Gwynedd. LL40 2YB**

Erbyn / By:

19.02.18

Tud. 13